


Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

Crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am
Fewnbyn a'r camau nesaf

Cyhoeddwyd 5 Medi 2024



Cynnwys

Adran

1. Overview	3
2. Summary of responses	5
3. Next steps.....	11

Atodiad

A1. Royal Mail proposal	14
A2. List of respondents	16

1. Trosolwg

Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom alw am ddadl genedlaethol ar ddyfodol gwasanaethau post y DU, gan dynnu sylw at y ffaith bod nifer y llythyrau wedi haneru ers 2011 a bod anghenion defnyddwyr wedi newid. Roeddem wedi nodi'r dystiolaeth roeddem wedi'i chasglu ac opsiynau ar gyfer diwygio. Roeddem wedi gofyn am fewnbwn gan yr holl randdeiliaid ac wedi cynnal digwyddiadau ym mhob un o wledydd y DU.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gawsom a'r safbwyntiau a fynegwyd yn ein digwyddiadau. Yna mae'n nodi ein camau nesaf. Nid ydym yn rhoi barn ar rinweddau neu fel arall y dadleuon a wnaed yn yr ymatebion, a gyhoeddir ar wefan Ofcom. Rydym yn ddiolchgar am yr holl fewnbwn gwerthfawr a gawsom ac am gymryd rhan yn y digwyddiadau.

Yn gryno

- Cawsom filoedd o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid – roedd y rhain yn nodi'n glir bod y post yn parhau i fod yn wasanaeth cyfathrebu hanfodol i ddefnyddwyr, busnesau a sefydliadau'r llywodraeth.
- Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd bod angen diwygio manyleb y rhwymedigaeth gwasanaeth post cyffredinol (USO) ar frys, fel bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn parhau i ddiwallu anghenion y dyfodol.
- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr a chyfranogwyr yn ein digwyddiadau cyhoeddus yn cydnabod bod y ffordd mae pobl a busnesau'n defnyddio llythyrau wedi newid ac yn derbyn y bydd hyn yn golygu bod angen newid y rhwymedigaethau ar y Post Brenhinol os ydym am sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn ddibynadwy.
- Pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i'r rhwymedigaethau ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth a gwasanaethau post swmp, gan barhau i ddanfôn llythyrau Dosbarth Cyntaf chwe diwrnod yr wythnos, byddai'n caniatáu i'r Post Brenhinol wneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol. Ni fyddai hyn yn golygu newid y lefelau gwasanaeth Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol sylfaenol a nodir yn Neddf Gwasanaethau Post 2011.
- Mae hyn yn cyd-fynd yn bennaf ag un o'r opsiynau a gyflwynwyd gennym ym mis Ionawr. Yn ei ymateb i'n cais am fewnbwn, cyflwynodd y Post Brenhinol gynllun i foderneiddio, a oedd yn cynnwys cynnig manwl ar gyfer newidiadau o'r fath. Bydd ein camau nesaf yn canolbwyntio ar asesiad manwl o'r opsiwn hwn i ystyried a fyddai'n sail addas ar gyfer diwygio rhwymedigaeth gwasanaeth post cyffredinol a'r rhwymedigaeth llythyrau mynediad cysylltiedig. Fel rhan o'n hasesiad, byddwn yn cynnal rhagor o ymchwil wedi'i dargedu i ddefnyddwyr ac yn rhoi ystyriaeth lawn i'r materion a'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr i'n dadl genedlaethol.
- Rydym yn disgwyl cyhoeddi ymgynghoriad manwl ar gynigion ar gyfer diwygio ddechrau 2025, gyda'r bwriad o gyhoeddi datganiad o benderfyniad yn ystod haf 2025. Mae'r amserlen hon yn adlewyrchu'r angen brys i ddiwygio manyleb y rhwymedigaeth gwasanaeth post cyffredinol fel bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy. Fodd

Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

bynag, bydd angen i'r Post Brenhinol wedyn weithredu'r trawsnewid sydd ei angen yn y busnes i gefnogi newidiadau rheoleiddiol.

2. Crynodeb o'r ymatebion

- 2.1 Ar 24 Ionawr 2024, fe wnaethom gyhoeddi [cais am fewnbwn ar ddyfodol y gwasanaeth post cyffredinol](#). Mae'r ddogfen cais am fewnbwn yn nodi tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen i'r gwasanaeth cyffredinol newid er mwyn cyd-fynd yn well ag anghenion defnyddwyr a sicrhau y gall barhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y dyfodol. Roedd yn gofyn am fewnbwn ar ein hasesiad i helpu i greu dadl gyhoeddus wybodus ar sut dylid moderneiddio'r gwasanaeth cyffredinol ar gyfer y dyfodol.
- 2.2 Cawsom nifer fawr o ymatebion i'n Cais am Fewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion, cyrff defnyddwyr, grwpiau ymgyrchu, sefydliadau cynrychioladol, busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, gweithredwyr mynediad a phostwyr swmp. Fe wnaethom hefyd gynnal pedwar digwyddiad i randdeiliaid ym mis Mawrth i gyfrannu at y drafodaeth, a chyfarfod â nifer o randdeiliaid yn uniongyrchol i drafod y Cais am Fewnbwn a chlywed eu barn.
- 2.3 Rydym wedi ystyried yn ofalus yr holl adborth a gafwyd a bydd safbwyntiau rhanddeiliaid yn parhau i gyfrannu at gam nesaf ein gwaith.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- 2.4 Cawsom 2,348 o ymatebion yn ystod y cyfnod y Cais am Fewnbwn. Fe wnaethom ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd, gan gynnwys ffurflenni ymateb, negeseuon e-bost a llythyrau. Dyma a gawsom:
- 72 o ymatebion a gyflwynwyd gan gyrff defnyddwyr, sefydliadau, busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, gweithredwyr mynediad a phostwyr swmp.
 - 6 ymateb a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr etholedig.
 - 1,468 o ymatebion gan unigolion yn defnyddio'r ymateb templed ymgyrch We Own It.
 - Cafwyd 802 o ymatebion eraill gan aelodau o'r cyhoedd.
- 2.5 Rydym wedi cyhoeddi'r ymatebion nad oeddent yn rhai cyfrinachol ar ein gwefan.¹ Rydym wedi cyhoeddi taenlen yn cynnwys sylwadau a gawsom gan unigolion, a chrynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd lle nad oedd yn glir a oedd ymatebwyr yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi.
- 2.6 Fe wnaethom gynnal digwyddiadau i randdeiliaid ym mhob un o wledydd y DU ym mis Mawrth i drafod yr opsiynau ar gyfer diwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ac annog trafodaeth. Roedd y digwyddiadau'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr, busnesau bach a chanolig a phostwyr swmp. Cyfrannodd cynrychiolwyr o'r Post Brenhinol, undebau llafur, cyrff defnyddwyr, busnesau, y diwydiant cardiau cyfarch, gweithredwyr

¹ Mae ymatebion i'n Cais am Fewnbwn ar gael yma: [Cais am fewnbwn:Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Ofcom](#)

Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

mynediad a phost swmp at drafodaethau adeiladol. Mae recordiad o'r digwyddiad yn Llundain ar gael.²

- 2.7 Rydym yn ddiolchgar am yr holl fewnbwn gwerthfawr a gawsom i'r cais am fewnbwn a chyfranogiad yn y digwyddiadau.

Crynodeb o'n hasesiad dros dro yn y Cais am Fewnbwn

- 2.8 Yn ein Cais am Fewnbwn, fe wnaethom alw am **ddadl genedlaethol ar ddyfodol gwasanaeth post y DU** wrth i bobl anfon llai o lythyrau a chael mwy o barseli, sy'n golygu bod angen diwygio er mwyn sicrhau ei ddyfodol hirdymor.³
- 2.9 **Fe wnaethom amlygu bod llawer o bobl yn dal i ddibynnu ar lythyrau ond bod anghenion pobl wedi newid.** Mae'r post yn dal i gael ei weld fel gwasanaeth pwysig gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Mae'r gwasanaeth post hefyd yn dal yn bwysig ar gyfer cydlyniant cymdeithasol. I rai defnyddwyr, yn enwedig ar gyfer yr henoed a llai symudol, mae post yn arf hanfodol i gysylltu â'r byd y tu allan a chynnal cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd. Mae gweithwyr post y Post Brenhinol hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn cymunedau.
- 2.10 Fodd bynnag, mae pobl yn anfon ac yn derbyn llai o lythyrau ac mae'n well ganddynt ddefnyddio dewisiadau amgen digidol. Mae nifer y llythyrau'n gostwng yn gyflym ac mae nifer y parseli wedi cynyddu. Mae'r newidiadau hyn yn cyd-fynd â thueddiadau rhyngwladol. Mae gwasanaethau rhwymedigaeth cyffredinol yn cyfrif am gyfran ostyngol o symiau a refeniw'r Post Brenhinol, tra bod gwasanaethau nad ydynt yn rhai gwasanaethau rhwymedigaeth cyffredinol wedi tyfu.
- 2.11 **Er bod y defnydd o lythyrau yn lleihau, mae angen anfon llawer o eitemau drwy lythyr o hyd.** Byddai anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn parhau i gael eu diwallu gyda newidiadau i fanyleb rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol y llythyrau o ran amledd darparu is a mwy o bwyslais ar sicrwydd danfon (yn hytrach na chyflymder danfon). Mae ein gwaith ymchwil ansoddol yn 2024 yn dangos bod pobl yn blaenoriaethu dibynadwyedd ar gyfer derbyn llythyrau, ond mae cyflymder ac amllder danfon yn cael eu hystyried yn llai hanfodol.⁴ Mae mwy nag 8 o bob 10 llythyr wedi'u cyfeirio yn cael eu hanfon gan sefydliadau mawr, fel y GIG a banciau. Mae'r rhain yn seiliedig ar gytundebau masnachol gyda'r Post Brenhinol a chwmnïau mynediad y tu allan i'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol. Mae llawer o bostwyr swmp hefyd yn gwerthfawrogi dibynadwyedd dros gyflymder ac maen nhw'n dewis cyflymder danfon arafach (o fewn 5 diwrnod). Ar hyn o bryd, nid yw defnyddwyr a busnesau yn cael y gwasanaeth dibynadwy y maent yn ei werthfawrogi oherwydd ansawdd gwasanaeth gwael y Post Brenhinol yn ddiweddar.
- 2.12 **Mae'r dystiolaeth yn dangos risg gynyddol y bydd y rhwymedigaethau presennol yn dod yn anghynaliadwy yn ariannol ac yn weithredol.** Yn ein Cais am Fewnbwn, fe wnaethom amcangyfrif mai baich cost net y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol i'r Post Brenhinol

² Mae recordiad o'r digwyddiad yn Llundain ar 14 Mawrth 2024 ar gael yma: [Post, present and future: discussing the future of the postal service – Ofcom event \(youtube.com\)](#)

³ Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn.](#)

⁴ Jigsaw, 2023. [Understanding the needs of postal service users: A report of findings from qualitative research, with a focus on potentially vulnerable groups.](#)

Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

oedd £325m-£675m yn 2021/22.⁵ Roedd yr ystod hon yn seiliedig ar yr elw y gwnaethom ei gyfrifo y gallai'r Post Brenhinol fod wedi'i wneud pe na bai wedi bod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a bod ganddo ryddid masnachol, o'i gymharu â'i sefyllfa go iawn yn y flwyddyn honno (er bod yr ystod yn cynnwys colli mantais yr eithriad TAW). Er y gallai fod modd cyfiawnhau rhywfaint o faich cost net o'i ystyried yn erbyn y manteision sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar y rhwydwaith post, sy'n ased cenedlaethol unigryw, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r lefel hon o gost net yn gynaliadwy yn y tymor hir, gan nodi nad yw'r Post Brenhinol wedi cyflawni lefel o broffidoldeb sy'n arwydd o gynaliadwyedd rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ers 2015/16.⁶

- 2.13 **Canlyniad rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol llythyrau nad ydynt yn cyd-fynd ag anghenion pobl yw y gallai pobl dalu prisiau uwch na'r angen.** Mae hefyd yn ei gwneud yn anoddach ac yn ddrutach i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth dibynadwy, ac i fuddsoddi ac ailstrwythuro ei rwydwaith i ymateb i'r hyn y mae pobl yn rhoi mwy o werth arno, ee. dibynadwyedd mewn llythyrau a mwy o opsiynau gwasanaeth mewn parseli.
- 2.14 **Fe wnaethom amlygu bod y DU ar ei phen ei hun o ran yr angen i ymateb i'r heriau hyn.** Ar draws Ewrop ac yn ehangach, mae rhwymedigaethau gwasanaeth post cyffredinol wedi cael eu diwygio neu wrthi'n cael eu diwygio.
- 2.15 **Fe wnaethom nodi dau brif opsiwn yr oeddem yn credu allai arwain at rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol sy'n cyd-fynd yn agosach ag anghenion pobl am lythyrau ac sy'n helpu i sicrhau dyfodol y gwasanaeth:**
- i) gwneud newidiadau i'r cynhyrchion Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth a busnes presennol⁷ fel bod y rhan fwyaf o lythyrau'n cael eu dosbarthu drwy wasanaeth arafach sy'n cymryd hyd at dri diwrnod neu fwy, gyda gwasanaeth diwrnod nesaf ar gael o hyd ar gyfer unrhyw lythyrau brys, a allai ganiatáu arbedion cost net o £150-650m; a
 - ii) lleihau nifer y diwrnodau cyflawni a gynigir o'r ymrwymiad chwe diwrnod yr wythnos presennol i bump neu dri. Roeddem wedi amcangyfrif y gallai'r Post Brenhinol arbed cost net o £100-200m petai danfon llythyrau'n cael ei leihau i bum diwrnod; a £400-650m os bydd yn cael ei leihau i dri diwrnod.⁸
- 2.16 **Fe wnaethom ddweud nad oedd israddio ansawdd gwasanaeth yn sylweddol yn opsiwn ar gyfer diwygio** ac, fel rhan o unrhyw ddiwygio i'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, y byddai'n bwysig ystyried a oes angen mesurau diogelu ychwanegol i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu'n llawn.
- 2.17 **Yn olaf, fe wnaethom nodi er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod angen diwygio'r gwasanaeth cyffredinol, ni fyddai hyn ar ei ben ei hun yn rhoi'r ateb i'r heriau ariannol a gweithredol y mae Post Brenhinol yn eu hwynebu.** Rydym yn parhau i ddisgwyl i'r Post Brenhinol wella ei ddibynadwyedd. Yn ychwanegol, rhaid i'r Post Brenhinol barhau i weithio

⁵ Ni wnaethom gynnal asesiad ffurfiol fel y nodir yn Adran 44 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011, ond rydym wedi ystyried opsiynau amcangyfrif amgen wrth ddod i'n safbwynt dros dro. Gweler Pennod 8 y Cais am Fewnbwn i gael rhagor o wybodaeth.

⁶ Ofcom, 2023. [Adroddiad Monitro'r Post](#), t. 23-24.

⁷ Mae hyn yn cyfeirio at y gwasanaethau post swmp sy'n cael eu darparu drwy bost manwerthu swmp y Post Brenhinol a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan weithredwyr post sy'n defnyddio gwasanaethau mynediad milltir olaf y Post Brenhinol.

⁸ Yr arbedion y gallai'r Post Brenhinol fod wedi'u sicrhau yn 2021/2022 pe bai'r newidiadau wedi bod ar waith bryd hynny.

Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

tuag at drawsnewid ei rwydwaith a'i weithrediadau, a gwella effeithlonrwydd, i sicrhau bod defnyddwyr yn cael y gwerth gorau posibl am y gwasanaethau maent yn eu prynu. Mae gweithredu yn y meysydd hyn yn hanfodol er mwyn i'r Post Brenhinol ailadeiladu ymddiriedaeth a pharhau i fod yn ddarparwr gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol.

Trosolwg o'r ymatebion

2.18 Mae themâu allweddol yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Pwysigrwydd a dibyniaeth barhaus ar llythyrau, er gwaethaf gostyngiad mewn cyfrolau; a chefnogaeth gref i gynnal egwyddorion sylfaenol cyffredinolrwydd, fforddiadwyedd a phrisiau unffurf wrth asesu newidiadau posibl i'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol.
- Pryder am berfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol, effeithiolrwydd y drefn orfodi Ansawdd Gwasanaeth bresennol, a'r angen i ddibynadwyedd fod yn ganolog i unrhyw ddiwygiad. Er bod y rhan fwyaf yn derbyn mai'r cynnydd mewn argaeledd a defnydd o gyfathrebu digidol yw'r prif reswm dros y gostyngiad yn nifer y llythyrau, dywedodd llawer fod dibynadwyedd gwael ynghyd â chynnydd mewn prisiau yn ffactorau sy'n cyfrannu.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn derbyn y byddai newid manyleb llythyrau'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, sy'n caniatáu danfon yn arafach neu'n llai aml, yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ar yr amod bod opsiwn ar gyfer y diwrnod nesaf yn dal i fod ar gael. Teimlai llawer y dylai hyn barhau i gynnwys danfon ar ddydd Sadwrn.
- Byddai diwygio'n dderbyniol pe bai'r manteision a geir gan y Post Brenhinol yn helpu i gynnal egwyddorion sylfaenol cyffredinolrwydd, fforddiadwyedd a phrisiau unffurf, ac i sicrhau dibynadwyedd.
- O ran amllder danfon, dadleuodd rhai y byddai danfon llythyrau bum niwrnod yr wythnos yn ddigon i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, cyn belled â bod y gwasanaeth yn ddibynadwy, ond bod unrhyw ostyngiad pellach i dri diwrnod neu un diwrnod yr wythnos yn llai derbyniol.
- Mewn senario pum diwrnod, roedd ymatebwyr o'r diwydiant cardiau cyfarch a chyhoeddwy'r cylchgronau wythnosol yn awyddus i gynnal y ddarpariaeth ar ddydd Sadwrn a chael gwared ar ddydd Llun, ac roedd llawer o ymatebwyr eraill yn dweud mai dileu dydd Sadwrn fyddai'n cael yr effaith leiaf arnyn nhw.
- Hyd yn oed wrth dderbyn newid, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am y posibilrwydd o gynnyrch llythyrau diwrnod nesaf/Dosbarth Cyntaf drutach, o gymharu â phrisiau Dosbarth Cyntaf heddiw. Roeddent yn dadlau y gallai hyn gyflymu'r gostyngiad yn nifer y llythyrau ymhellach.
- Roedd rhai ymatebwyr a oedd â phryderon sylweddol ynghylch diwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ac nad oeddent yn derbyn bod angen gwneud hynny. Roeddent yn dadlau y byddai newidiadau'n cael effaith niweidiol ar eu gwaith neu'n rhoi rhai grwpiau o ddefnyddwyr dan anfantais, ee. pobl hŷn neu'r rheini nad oeddent ar-lein. Yn hytrach, roeddent yn dadlau y dylai'r Post Brenhinol

Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

ganolbwyntio ar wella dibynadwyedd, dod yn fwy effeithlon a/neu gynnal y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol gyda chynnyrch neu wasanaethau newydd.

- Pwysleisiodd cyrff defnyddwyr yr angen i gynnal ymchwil pellach i anghenion defnyddwyr grwpiau penodol cyn ystyried opsiynau ar gyfer diwygio.
- Roedd rhai yn galw am gynnwys mwy o wasanaethau a nodweddion cynnyrch yn y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys cynnyrch diwedd dydd Danfoniad Arbennig, olrhain a gwasanaeth i ddefnyddwyr agored i niwed heb gyfeiriad sefydlog (Gwasanaeth Cyfeiriad a Chasglu). Roedd eraill yn galw am fwy o ystyriaeth i'r rôl ehangach y gallai'r gwasanaeth post ei chyflawni mewn cymdeithas ee rôl yn y broses o ddarparu presgripsiynau'r GIG.
- Fe wnaeth nifer fawr o ymatebwyr alw'n unigol am ymyrraeth gan y llywodraeth i ailwladoli'r Post Brenhinol fel rhan o'r ymgyrch We Own It; fe wnaeth ymatebwyr eraill alw ar y llywodraeth i roi cymhorthdal i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, naill ai i gynnal y fanyleb gyfredol, neu i'w chefnogi tra'i bod yn cael ei diwygio. Nodwn mai materion i Lywodraeth y DU yw'r rhain, yn hytrach na'r rheoleiddiwr.

Cynnig y Post Brenhinol ar gyfer diwygio

2.19 Cyhoeddodd y Post Brenhinol ei gynnig ar gyfer diwygio fel rhan o'i ymateb i'r Cais am Fewnbwn.⁹ Mae'n cynnwys:

- Llythyrau Dosbarth Cyntaf i'w danfon ar y diwrnod nesaf (D+1)¹⁰ gyda danfoniadau o ddydd Llun i ddydd Sadwrn (fel heddiw).
- Llythyrau Ail Ddosbarth i'w dosbarthu o fewn 3 diwrnod (D+3) (fel heddiw), gyda danfoniadau bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, byddai dydd Sadwrn yn cael ei dynnu fel diwrnod danfon ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth.¹¹
- Mae angen cysoni'r cynnyrch presennol ar gyfer llythyrau mynediad gyda'r newidiadau i llythyrau Ail Ddosbarth.¹² Ar gyfer y cynnyrch D+2 presennol, byddai'r cyflymder dosbarthu yn newid o D+2 i D+3 a byddai danfoniad ar ddydd Sadwrn yn cael ei ddileu. Ar gyfer y cynnyrch D+5, byddai danfoniad dydd Sadwrn yn cael ei

⁹ Gweler Atodiad 1 y ddogfen hon am grynodeb o gynnig y Post Brenhinol. **Gweler hefyd ymateb y Post Brenhinol i'r Cais am Fewnbwn ym mis Ionawr 2024, tud 38.**

¹⁰ Mae 'D+X' (ee D+1, D+3, D+5) yn nodi cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith (lle mae'r dyddiau gwaith o ddydd Llun i ddydd Sadwrn) rhwng y diwrnod yr anfonodd yr anfonwr yr eitem ('D') a'r diwrnod y maen cyrraedd y derbynnydd ('X'). Er enghraifft, mae D+1 yn cyfeirio at y senario lle mae cwsmer yn postio llythyr ddydd Llun ac yn cael ei ddsbarthu y diwrnod gwaith nesaf ar ddydd Mawrth, hynny yw ar D+1. Rhaid anfon yr eitem cyn y tro diwethaf i'w chasglu er mwyn i D fod y diwrnod yr anfonwyd yr eitem. Pan fydd anfonwr yn anfon eitem ar ddydd Sul, ystyrir mai dydd Llun yw 'D'.

¹¹ Byddai hyn yn caniatáu i'r Post Brenhinol weithredu model dosbarthu 2.5 diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn golygu y byddai hanner y cyfeiriadau'n derbyn llythyrau nad ydynt yn rhai Dosbarth Cyntaf ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener ar wythnos un, ac yna'n newid i ddydd Mawrth a dydd lau yr wythnos nesaf, cyn dychwelyd i'r patrwm dosbarthu 3 diwrnod yr wythnos wedyn. Mae hyn yn golygu bod pob cyfeiriad yn derbyn 2.5 danfoniad yr wythnos ar gyfartaledd.

¹² Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau i'r Post Brenhinol gynnig mynediad i weithredwyr post eraill i'w rwydwaith llythyrau. Mae'r cwmnïau hyn yn casglu ac yn didoli post swmp gan eu cwsmeriaid busnes cyn ei roi i'r Post Brenhinol ar gyfer danfon y filltir olaf. Rydym wedi cyfeirio at y llythyrau hyn fel llythyrau mynediad. Mae'r rhain yn rhan o wasanaethau busnes y Post Brenhinol.

Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

ddileu. Byddai llythyrau mynediad D+3 yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (yn unol â llythyrau Ail Ddosbarth).

- Dim newidiadau i ddiwrnodau neu gyflymder danfon parseli, a dim newidiadau i amllder casglu llythyrau neu barseli.
- Amrywiol newidiadau i'r targedau ansawdd gwasanaeth (ee llaihu'r targedau syflaenol ond cyflwyno targedau post hwyr eilaidd newydd);¹³ ac
- Ychwanegu olrhain parseli at y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol,¹⁴ a chynnyrch Danfoniad Arbennig diwedd dydd ychwanegol at y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol.¹⁵

2.20 Dywedodd y Post Brenhinol y byddai'r newidiadau yr oedd yn eu cynnig yn ei helpu i greu rhwydwaith dosbarthu mwy effeithlon ac yn arwain at arbedion o hyd at £300 miliwn y flwyddyn.¹⁶

¹³ Mae'r targedau post hwyr yn berthnasol i bost nad yw wedi'i ddanfoni ar amser. Mae'n gosod targed eilaidd i liniaru'r risg o oedi sylweddol.

¹⁴ Mae olrhain yn elfen o gynnyrch Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Danfoniad Arbennig 1pm, ond nid cynnyrch (neu lythyrau) Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Mae'r Post Brenhinol yn cynnig cynnyrch parseli wedi'u holrhain yn fasnachol (y tu allan i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol) ee Olrhain 24 awr ac Olrhain 48 awr.

¹⁵ Danfon Arbennig y diwrnod nesaf erbyn 1pm yw'r cynnyrch cofrestredig ac yswiriedig sydd yn y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar hyn o bryd.

¹⁶ Mae'r Post Brenhinol yn disgwyl y byddai ei gynnig yn cymryd 18-24 mis i'w roi ar waith. Gweler ymateb y Post Brenhinol i'r Cais am Fewnbwn ym mis Ionawr 2024, tud 41.

3. Y camau nesaf

- 3.1 Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'n Cais am Fewnbwn yn ofalus. Mae'n amlwg bod y gwasanaeth post cyffredinol yn parhau i fod yn rhwydwaith cyfathrebu hanfodol ar gyfer pobl, busnesau a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ledled y DU.
- 3.2 Ar y cyfan, er ein bod yn cydnabod bod gan lawer o randdeiliaid bryderon sylweddol ynghylch newidiadau i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, mae llawer o'r ymatebion yn cydnabod bod defnydd pobl o llythyrau wedi gostwng yn bennaf oherwydd cyfathrebiadau digidol ac yn awgrymu y byddai newid cymedrol i ddiwrnodau dosbarthu a/neu gyflymder dosbarthu llythyrau yn dderbyniol i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Mae hyn yn arbennig o wir os bydd y buddion a wireddwyd yn helpu i gynnal egwyddorion sylfaenol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (cyffredinolrwydd, fforddiadwyedd a phrisiau unffurf), ac yn gwella dibynadwyedd a chynaliadwyedd y gwasanaeth.
- 3.3 Fel y nodwyd gennym yn ein Cais am Fewnbwn, bu gostyngiad sylweddol yn y defnydd o llythyrau ers i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol presennol gael ei diffinio yn 2011, ac eto mae gwasanaethau wedi aros yr un fath fwy neu lai. Er bod gwasanaethau post yn dal yn hanfodol, y canlyniad yw bod y gwasanaethau y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu darparu yn fwyfwy costus fesul uned, gydag effeithiau canlyniadol ar gostau'r gwasanaethau (a phrisiau a fforddiadwyedd). Yn fwy sylfaenol, mae risg sylweddol na fydd y darparwr gwasanaeth cyffredinol yn gallu parhau i weithredu'n gynaliadwy.
- 3.4 Felly, gan ystyried yr ymatebion i'n Cais am Fewnbwn, rydym yn dal o'r farn bod angen clir a brys i gysoni manyleb y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer llythyrau yn agosach ag anghenion rhesymol defnyddwyr, ac i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth.
- 3.5 Felly, byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar y posibilrwydd o ddiwygio gofynion llythyrau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.
- 3.6 Cododd ymatebwyr bryderon hefyd am berfformiad Ansawdd Gwasanaeth y Post Brenhinol, sydd wedi methu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda chwsmeriaid a busnesau ddim yn cael gwasanaeth dibynadwy. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddiwygiad yn arwain at welliannau o ran dibynadwyedd, a byddwn yn parhau i ddal y Post Brenhinol i gyfrif am ei berfformiad gwael. Ym mis Mai, fe wnaethom agor ymchwiliad i'w fethiant i gyrraedd ei dargedau cyflawni Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth ar gyfer 2023/24.¹⁷ Mae'r Post Brenhinol wedi cyhoeddi diweddariad yn ddiweddar ar ei gynlluniau i wella ei berfformiad.¹⁸ Rydym yn croesawu hyn, a'r gwelliannau diweddar y mae wedi'u gwneud i'w berfformiad, ond mae mwy i'r cwmni ei wneud a byddwn yn parhau i fonitro hyn yn agos.
- 3.7 Rydym yn nodi'r alwad gan gyrff defnyddwyr i rwydwaith y Post Brenhinol gynnig neu gefnogi gwasanaeth i ddefnyddwyr agored i niwed heb gyfeiriad sefydlog. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y materion hyn ond yn nodi na ellid cyflawni'r gwasanaeth

¹⁷ Ofcom, 2024. [Mae Ofcom wedi agor ymchwiliad heddiw i fethiant y Post Brenhinol i gyrraedd ei dargedau dosbarthu ar gyfer 2023/24.](#)

¹⁸ Y Post Brenhinol, 2024. [Annual Adjusted Quality of Service Report 2023/24.](#)

Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

Cyfeiriad a Chasglu a gynigir ar hyn o bryd gan Gyngor ar Bopeth drwy reoleiddio'r Post Brenhinol yn unig o ystyried rôl arfaethedig Swyddfa'r Post.¹⁹

- 3.8 Mae cynnig y Post Brenhinol ar gyfer diwygio yn cyd-fynd yn bennaf ag un o'r opsiynau a nodwyd gennym yn ein Cais am Fewnbwn (lleihau cyflymder danfon y rhan fwyaf o llythyrau), a oedd, yn ein barn ni, yn cyd-fynd â'n dealltwriaeth o anghenion esblygol defnyddwyr. Rydym hefyd yn nodi y gallai cynnig y Post Brenhinol fod yn gyson â gofynion sylfaenol gwasanaeth post cyffredinol a bennwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011, gan y byddai llythyrau Dosbarth Cyntaf yn dal i gael eu dosbarthu bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.²⁰
- 3.9 Gellid gweithredu cynnig y Post Brenhinol drwy addasu rheoliad Ofcom yn unig. Rhagwelwn felly y gellid ei weithredu'n gynt nag unrhyw opsiynau a fyddai'n galw am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. O'r herwydd, ac yn benodol o ystyried yr angen brys am ddiwygio, rydym o'r farn ei bod yn briodol i'n camau nesaf ganolbwyntio ar asesiad manwl o gynnig y Post Brenhinol, er mwyn ystyried a fyddai'n sail addas ar gyfer diwygio'r gwaith o reoleiddio llythyrau'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a'r rhwymedigaeth mynediad cysylltiedig.
- 3.10 Rydym yn bwriadu gwneud ein gwaith mewn dau gam. Yn y cam cyntaf, byddwn yn canolbwyntio ar newidiadau a fyddai, os yw'n dderbyniol, yn galluogi'r Post Brenhinol i ddechrau gweithredu unrhyw newid sefydliadol angenrheidiol. Yn amodol ar gytuno ar dderbynioldeb cynnig y Post Brenhinol, yn yr ail gam byddem yn canolbwyntio ar feysydd perthnasol eraill y gyfundrefn reoleiddio. Felly, byddwn yn canolbwyntio i ddechrau ar asesu'r canlynol:
- lleihau diwrnodau danfon ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth (D+3) trwy ddileu dydd Sadwrn gyda danfoniadau dydd Llun i ddydd Gwener (bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos);
 - newid cynnyrch llythyrau mynediad D+2 i D+3 a chael gwared ar ddanfon ar ddydd Sadwrn. Ar gyfer y cynnyrch llythyrau mynediad D+5, cael gwared ar ddanfon ar ddydd Sadwrn. Ar gyfer llythyrau mynediad, danfon o ddydd Llun i ddydd Gwener (bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn unol â llythyrau Ail Ddosbarth); a
 - a oes angen unrhyw ddiwygiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yng ngoleuni'r newidiadau uchod i sicrhau lefelau uchel o ddibynadwyedd.
- 3.11 Bydd cam cyntaf ein gwaith yn cynnwys y canlynol:
- cynnal asesiad llawn i weld a fyddai'r diwygiadau arfaethedig hyn yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr;
 - asesu effaith unrhyw newidiadau ar gynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol;
 - asesu effaith newidiadau ar wahanol grwpiau defnyddwyr post a chwmnïau mynediad; ac
 - ystyried pa ymyriadau rheoleiddiol, os o gwbl, sydd eu hangen i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.
- 3.12 **Rydym yn disgwyl gyhoeddi ymgynghoriad ar y newidiadau craidd hyn yn gynnar yn 2025, gyda'r bwriad o gyhoeddi datganiad o benderfyniad yn haf 2025.**

¹⁹ Nid yw Ofcom yn rheoleiddio Post Office Limited.

²⁰ Gweler adran 31 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

- 3.13 Yn ystod ail gam y gwaith, rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriadau i gynnwys cynigion sy'n ymwneud ac yn ystyried y canlynol:
- **Y drefn Ansawdd Gwasanaeth ehangach** – byddwn yn adolygu ein gofynion ansawdd gwasanaeth cyffredinol ar y Post Brenhinol a'n dull gorfodi i sicrhau ei bod yn cymell perfformiad y Post Brenhinol yn briodol ac yn sicrhau'r lefelau uchel o ddibynadwyedd y mae cwsmeriaid yn eu gwerthfawrogi;
 - **Fforddiadwyedd a phrisiau** – byddwn yn ystyried opsiynau i sicrhau fforddiadwyedd parhaus gwasanaethau rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu'n well na'r cap diogelu Ail Ddosbarth presennol, yn ogystal ag adolygu'n fwy cyffredinol ein dull o reoleiddio prisiau gwasanaethau'r Post Brenhinol; a
 - **Materion eraill** – byddwn yn ystyried materion eraill fel strwythur y rhwymedigaethau mynediad, a chwmpas a diffiniad cynhyrchion rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (fel cynnig y Post Brenhinol ar gyfer cynnwys cynnyrch diwedd diwrnod Danfon Arbennig ychwanegol yn y rhwymedigaeth gwasanaeth cynnyrch terfynolyffredinol).
- 3.14 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth, y Post Brenhinol, Swyddfa'r Post a chyrrff defnyddwyr i gefnogi cynlluniau i wella mynediad at bost ar gyfer defnyddwyr penodol sy'n agored i niwed (ee y rheini sy'n ddiartref neu sydd wedi dioddef cam-drin domestig).
- 3.15 Rydym yn ddiolchgar i randdeiliaid am eu hymatebion i'n Cais am Fewnbwn. Rydym yn deall pwysigrwydd ein gwaith i ymatebwyr a'r gymdeithas ehangach, a byddwn yn ystyried yr holl safbwyntiau a fynegir wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf ein gwaith.

A1. Cynnig y Post Brenhinol

- Cyflwynodd y Post Brenhinol ei gynnig ar gyfer diwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn ei ymateb i'n Cais am Fewnbwn ym mis Ionawr. Mae prif nodweddion ei gynnig yn cynnwys y canlynol.

Cynnig y Post Brenhinol: crynodeb²¹

Agwedd	Crynodeb o'r cynnig
Cyflymder cynnyrch llythyr rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol	Dosbarth Cyntaf (D+1) ac Ail Ddosbarth (D+3) i aros yr un peth. Llythyrau Dosbarth Cyntaf: danfoniadau sy'n cael eu cynnig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn fel ar hyn o bryd. Llythyrau Ail Ddosbarth: danfoniadau sy'n cael eu cynnig o ddydd Llun i ddydd Gwener (dydd Sadwrn yn cael ei ddileu). Byddai hyn yn caniatáu i'r Post Brenhinol weithredu model danfon bob yn ail ddiwrnod ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai Dosbarth Cyntaf (ee cynnyrch Ail Ddosbarth a llythyrau mynediad). ²² Cyffredinoldeb heb ei newid (hynny yw yr un cynnyrch a lefelau gwasanaeth sy'n cael eu cynnig i bob cyfeiriad ledled y DU).
Prisio Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol	Cadw prisiau unffurf (un pris i bob cyfeiriad). Gofyniad i bob cynnyrch rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol fod yn fforddiadwy heb newid. Dileu'r cap ar ddiogelu Ail Ddosbarth a gweithio gydag Ofcom i ddeall dichonoldeb cynllun wedi'i dargedu.
Cael gafael ar gynnyrch llythyr	Cafodd cynnyrch mynediad D+2 presennol ei newid i alinio ag Ail Ddosbarth (D+3), felly newidiodd D+2 i D+3. Cafodd dydd Sadwrn ei ddileu fel diwrnod dosbarthu ar gyfer D+3 ac ar gyfer cynhyrchion D+5. Llythyrau mynediad D+3 (sy'n disodli llythyrau mynediad D+2) yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod (yn unol â llythyrau Ail Ddosbarth).

²¹ Gwnaeth y Post Brenhinol nifer o gynigion hefyd i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ac ynghylch amseru a chynnal gwaith Ofcom nawr ac yn y dyfodol. [Gweler ymateb y Post Brenhinol i'r Cais am Fewnbwn ym mis Ionawr 2024 i gael rhagor o fanylion.](#)

²² Gweler troednodyn 11 am esboniad o fodel danfon bob yn ail diwrnod.

Agwedd

Crynodeb o'r cynnig

	<p>Mae RM yn parhau i gynnig cynnyrch llythyrau mynediad diwrnod nesaf sy'n cynnig danfoniadau o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ochr yn ochr â'i gynnnyrch llythyrau post swmp y diwrnod nesaf ei hun.</p>
Parseli Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol	<p>Dim newidiadau i gyflymder cynnyrch parseli nac amllder danfon.</p> <p>Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gynnig danfon parseli o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r Post Brenhinol yn parhau â'i arferion masnachol i gynnig danfon ar ddydd Sadwrn ac yn amlach ar ddydd Sul.</p>
Casgliadau o lythyrau a pharseli rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol	<p>Heb newid. Casglu llythyrau o bwyntiau mynediad (ee blychau post) o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Casglu parseli o bwyntiau mynediad o ddydd Llun i ddydd Gwener.</p>
Ansawdd gwasanaeth rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol	<p>Newidiadau amrywiol sy'n cael eu cynnig:</p> <p>Dosbarth Cyntaf: D+1 i 90% (o 93%). Targed post hwyr newydd D+2 sef 96% (hynny yw rhaid i 96% o bost Dosbarth Cyntaf gael ei ddanfon ddim hwyrach na D+2). Dileu targed Ardal Cod Post Dosbarth Cyntaf (PCA), neu newid targed PCA i 86% (o 91.5%).</p> <p>Ail Ddosbarth: D+3 i 95% (o 98.5%). Targed post hwyr newydd: D+5 ar 99% (hynny yw rhaid i 99% o bost Ail Ddosbarth gael ei ddanfon ddim hwyrach na D+5).</p> <p>Targed y llwybr danfon: newid y fethodoleg i fesur canran y pwyntiau danfon a gwblheir yn ddyddiol (nid y llwybrau a gwblhawyd).²³</p> <p>Cyfnod y Nadolig: i ddechrau'r eithriad ddiwedd mis Tachwedd i gynnwys Dydd Gwener Du ac Wythnos Prynu Ar-lein.²⁴</p>
Ychwanegiadau i'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol	<p>Caniatáu olrhain ar barseli rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol.</p> <p>Cynnyrch diwedd dydd Danfon Arbennig Ychwanegol yn y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol.</p>

²³ Dyma darged y llwybr danfon ar hyn o bryd: y Post Brenhinol i gwblhau o leiaf 99.9% o'r holl lwybrau danfon bob dydd pan fo angen danfon. Mae'r targed yn seiliedig ar ganran y llwybrau a gwblhawyd, hynny yw os bydd un cyfeiriad yn cael ei fethu ar lwybr dosbarthu, byddai hyn yn cyfrif fel methiant. Cynnig y Post Brenhinol yw bod y fethodoleg yn cael ei newid i darged ar sail canran y 'pwyntiau danfon' (hynny yw cyfeiriadau) a gyrhaeddir bob dydd pan fo angen danfon.

²⁴ Nid yw'r targedau Ansawdd Gwasanaeth yn berthnasol yn ystod cyfnod y Nadolig (mis Rhagfyr tan y Flwyddyn Newydd), oherwydd niferoedd uchel o bost tymhorol. Fodd bynnag, er mwyn bod yn dryloyw, mae'n rhaid i'r Post Brenhinol adrodd ar ei berfformiad yn ystod y cyfnod hwn.

A2. Rhestr o'r ymatebwyr

- Mae'r ymatebion canlynol wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol wedi cael eu cyhoeddi'n llawn. Mae ymatebion rhannol gyfrinachol wedi cael eu golygu fel y bo'n briodol a'u cyhoeddi ochr yn ochr ag ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol. Lle nad oedd yr ymatebwyr wedi cadarnhau a oedd eu hymatebion yn gyfrinachol ai peidio, rydym wedi cyhoeddi crynodeb o'u safbwyntiau. Dywedodd tri ymatebydd fod eu hymatebion yn gwbl gyfrinachol ond eu bod yn cytuno y gellid cyhoeddi eu henwau.

- Cardiau Pwyllgor Cynghori Lloegr
- Pwyllgor Cynghori'r Alban
- British Independent Retailers Association
- Cardioleg
- Catherine West AS
- Cyngor ar Bopeth
- Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl
- Cotton Traders
- Cynodis Heavy Industries
- Y Comisiwn Etholiadol
- Evri
- Germinal GB
- Action with Communities in Rural England
- Association of Electoral Administrators
- British Inherited Metabolic Diseases Group
- Caroline Ansell AS
- CFH Docmail Limited
- Comisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon
- Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon
- Countryside Alliance
- Direct Commerce Association
- Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban
- Ffederasiwn y Busnesau Bach
- Greeting Card Association
- Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon
- Cyngor Undebau Llafur Blackburn a'r Cylch
- Cambrian Model Rail
- Caroline Lucas AS
- Citipost Mail
- Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu
- Consumer Scotland
- Credit Services Association
- Earlybird Designs
- Etsy
- Fulprint
- Gretton Books

Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

- Healthwatch England (ar ran Darparwyr y GIG, National Voices a Patients Association)
- Immediate Media
- Landsite
- Cyngor Tref Maryport
- National Society for Phenylketonuria
- NHS England
- Professional Publishers Association
- Rotherham Talking Newspaper
- Scottish Assessors Association
- Strategic Mailing Partnership
- Transport and Health Science Group
- Unite CMA
- Aelodau o'r cyhoedd (gweler y daenlen a'r tri ymateb a gyhoeddwyd oherwydd hyd, a chrynodeb o'r safbwyntiau).
- Helen Hayes AS
- Sefydliad y Gwyddorau Biofeddygol
- Mail Users Association
- Moonpig
- National Voices
- Pitney Bowes
- Quadient
- Coleg Brenhinol y Patholegwyr
- Scottish Grocers Federation
- Tasher Property Co
- Twizler
- We Own It
- House of Cards
- Y Gofrestrfa Tir
- Manchester & Trafford Local Care Organisation (y GIG)
- National Federation of SubPostmasters
- Newborn Screening Laboratory Network
- Swyddfa'r Post
- Restore Digital
- Y Post Brenhinol
- Spike Publications
- Thortful
- UKMail
- Whistl UK Limited

Ymatebion cyfrinachol ond sy'n hapus i'w henwau gael eu cyhoeddi.

- Gwasanaeth Masnachol y Goron
- eBay
- Adare SEC

